

Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Esgyll Siarcod

Ionawr 2023

Cyflwyniad

1. Gosododd Llywodraeth Cymru [Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#) (PDF 97.2KB) ar y Bil gerbron y Senedd ar 25 Tachwedd 2022. Ar 29 Tachwedd, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r [dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 16 Ionawr 2023](#) (PDF 48.3KB). Ystyriodd y Pwyllgor hwn y Memorandwm ar 14 Rhagfyr 2022.

Cefndir

2. Cyflwynwyd y Bil Esgyll Siarcod ("y Bil") gan Christina Rees AS fel Bil Aelod Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin ar 15 Mehefin 2022. Cynhaliwyd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Tachwedd 2022, gyda'r Cyfnod Adrodd wedi'i amserlennu ar gyfer 20 Ionawr 2023. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ("DEFRA").

3. Prif amcan polisi y Bil yw amddiffyn siarcod rhag arferion pysgota anghynaliadwy drwy wahardd mewnfario ac allforio cynhyrchion esgyll siarcod sydd wedi'u cael drwy arferion pysgota anfoesegol. Nid yw'r Bil yn gwahardd gwerthu na bwyta esgyll siarcod, dim ond mewnfario ac allforio esgyll siarcod wedi'u gwahanu, h.y. y rhai a geir drwy'r arfer o dynnu esgyll siarcod.

4. Mae tynnu esgyll siarcod yn arfer lle mae siarcod yn cael eu dal a'u hesgyll yn cael eu torri i ffwrdd, yna mae corff y siarc yn cael ei daflu. Mae'n cael ei gyrru gan werth uchel yr esgyll (danteithfwyd mewn rhai diwylliannau), a gwerth marchnad isel cig siarcod. Mae tynnu esgyll siarcod ymhlith y [bygythiadau mwyaf i gadwraeth siarcod](#). Amcangyfrifir bod yr arfer hon yn gyfrifol am [ladd 97 miliwn o siarcod yn fyd-eang](#) bob blwyddyn.



5. Mae glanio esgyll nad ydynt ynghlwm wrth siarcod wedi cael ei wahardd ledled yr UE, gan gynnwys y DU, ers 2003. Mae hyn yn parhau i fod yn berthnasol i'r DU ar ôl iddi ymadael â'r UE. Lle mae gwaharddiadau o'r fath yn cael eu gorfodi, yn gyffredinol gellir masnachu esgyll siarcod yn gyfreithlon ar ôl iddynt gael eu tynnu oddi wrth y siarc ar y lan, a elwir yn bolisi 'esgyll sydd ynghlwm yn naturiol'.

6. Mae hyn yn golygu bod masnach mewn esgyll siarcod a chynhyrchion siarc eraill yn cael ei ganiatáu, ond gyda rhai cyfyngiadau ar rai rhywogaethau. Mewnforiodd y DU tua 60 tunnell o esgyll siarcod y flwyddyn rhwng 2013 a 2017. Yn 2020, allforiodd tua phum tunnell.

7. Hefyd, ceir deddfwriaeth yr UE a ddargedwir, sef y lwfans mewnforio personol, sy'n galluogi unigolion sy'n teithio i'r DU i gario hyd at 20kg o esgyll siarcod sych at ddefnydd personol. Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020 ar ddiogelu rhywogaethau siarcod sydd mewn perygl, dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu gwahardd allforio a mewnforio esgyll siarcod, gan gynnwys y lwfans personol o 20kg.

Trosolwg o'r Bil

8. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth fel a ganlyn:

- mae cymal 1 yn gwahardd mewnforio ac allforio esgyll siarcod wedi'u gwahanu neu bethau sy'n cynnwys esgyll siarcod;
- mae cymal 2 yn diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1185/2003 ar dynnu esgyll siarcod ar fwrdd llongau (y "Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod");
- mae cymal 3 yn darparu rhychwant, cychwyn ac enw byr y Bil; ac
- mae'r Atodlen yn amlinellu'r broses i ymgeiswyr wneud cais am dystysgrif esemptio rhag y gwaharddiad yng nghymal 1, yn ogystal â phŵer Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod priodol i wrthod a dirymu tystysgrifau o'r fath, ac i osod cosbau ariannol ar ymgeiswyr am ddarparu gwybodaeth gamarweiniol.

Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

9. O dan Reol Sefydlog 29, rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol os yw Bil y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:

- at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu

ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu

- sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

10. Mae'r Atodiad a geir yn y Nodiadau Esboniadol a baratowyd gan DEFRA yn nodi'r darpariaethau y mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer. I grynhoi, mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer holl gymalau'r Bil a'r Atodlen iddo.

Cymal 1 - GWAHARDDIAD AR FEWNFORIO AC ALLFORIO ESGYLL SIARCOD

11. Mae cymal 1(1) yn gwahardd mewnfario ac allfario esgyll siarcod, neu bethau sy'n eu cynnwys, i'r DU ac oddi yno ar ôl iddynt ddod i mewn i Brydain Fawr neu eu symud o Brydain Fawr.

12. Nid yw'r gwaharddiad yn gymwys os yw asgell siarc ynghlwm yn naturiol wrth gorff siarc a bod y corff yn sylweddol gyfan. Mae cymal 1(2)(b) yn esbonio ystyr "sylweddol gyfan" fel tynnu'r pen a'r organau mewnol.

13. Mae cymal 1(4) yn diffinio esgyll siarc fel unrhyw esgyll siarc neu rannau o esgyll siarc, ac eithrio esgyll pectoral neu rannau o esgyll pectoral morgath a siarc yn cael eu diffinio fel unrhyw bysgodyn o'r tacson Elasmobranchii.

14. Diben cymal 1 o'r Bil yw lles a/neu gadwraeth anifeiliaid, sy'n faterion datganoledig, felly mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd.

15. Y prawf a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1(i) yw a yw diben y ddarpariaeth o fewn cymhwysedd y Senedd. Nid y prawf yn Rheol Sefydlog 29.1(i) yw a oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i basio'r un ddarpariaeth yn union (gall darpariaeth fod â diben datganoledig ond yn dal i fethu un o'r profion cymhwysedd deddfwriaethol).

16. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (Paragraff 10) yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn.

Cymal 2 - TYNNU ESGYLL SIARCOD AR LONGAU PYSGOTA

17. Mae cymal 2 yn diwygio fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o'r Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod drwy gywiro gwall drafftio yn Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau Trosi'r DU"), a oedd yn trosi'r Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod i gyfraith y DU.

18. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi ym mharagraff 12, cyn iddo gael ei drosi, fod y Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod yn gwahardd llongau pysgota'r UE rhag tynnu esgyll siarcod mewn unrhyw ddyfroedd morol, ac unrhyw long bysgota rhag tynnu esgyll siarcod yn nyfroedd morol yr UE. Fodd bynnag, mae gwall drafftio yn Rheoliadau Trosi'r DU yn golygu, ar hyn o bryd, nad yw'r gwaharddiad ar esgyll siarcod o dan y Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod yn gymwys i longau pysgota nad ydynt o'r DU nac o'r UE yn nyfroedd morol y DU. Bydd y Bil yn diwygio Erthygl 1 o'r Rheoliad Tynnu Esgyll Siarcod drwy ymestyn y gwaharddiad i longau pysgota o'r DU mewn unrhyw ddyfroedd morol a llongau pysgota eraill yn nyfroedd y Deyrnas Unedig.

19. Diben cymal 2 o'r Bil yw lles a/neu gadwraeth anifeiliaid, sy'n faterion datganoledig, felly mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (Paragraff 13) yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn.

Cymal 3 – RHYCHWANT, CYCHWYN AC ENW BYR

20. Mae cymal 3(1) yn nodi'r rychwant tiriogaethol sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

21. Mae cymal 3(2) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ei ben ei hun wneud rheoliadau ar gyfer cychwyn cymal 1 a'r Atodlen i'r Bil.

22. Mae cymal 3(3) yn darparu y bydd cymal 2 o'r Bil yn dod i rym ddau fis ar ôl y dyddiad y caiff y Bil ei basio. Mae cymal 3(4) yn darparu y bydd cymal 3 yn dod i rym ar y dyddiad y caiff y Bil ei basio.

23. Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ym mharagraff 16 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol bod cymal 3 (ac eithrio cymal 3(5)) yn gymal anweithredol ac nad oes ganddo unrhyw effaith gyfreithiol y tu allan i gychwyn y Bil a chadarnhau rychwant, cwmpas y rheoliadau a'r enw. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at ddibenion Rheol Sefydlog 29. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r Bil wneud darpariaeth i Gymru ac i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r pwerau cychwyn. Mae cymal 3(5) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ar gyfer darpariaeth drosiannol neu arbedion mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil a fydd yn dod i rym.

24. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gymal 3 o'r Bil, gan ei fod yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi mai dim ond ar gyfer cymal 3(5) y mae angen cydsyniad (gweler paragraff 17 o'r Memorandwm).

25. Barn Llywodraeth y DU (gweler yr Atodiad i'r Nodiadau Esboniadol, ar dudalen 10) yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 3. Mae Memorandwm Pwerau Dirprwyedig Llywodraeth y DU yn datgan (gweler pwynt 6 a 7, ar dudalen 2) mewn perthynas â chymal 3(5):

"6. Parliament has approved the principle of transitional or savings provisions to be provided for by regulations to ensure the smooth commencement of new legislation. There are several precedents for this power.

"7. As is usual with the ancillary powers of savings and transitional provisions, regulations made under this clause are not subject to any parliamentary procedure."

ATODLEN

26. Mae paragraff 1 o'r Atodlen yn darparu nad yw'r gwaharddiad ar fewnforio neu allforio esgyll siarcod yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru (yr awdurdod priodol) wedi dyroddi tystysgrif esemptio yn caniatáu mewnforio neu allforio o'r fath ar ddyddiad penodedig neu o fewn cyfnod penodol a nodir yn y dystysgrif esemptio. Mae hefyd yn cadarnhau bod yn rhaid i dystysgrif esemptio gynnwys rhif unigryw; cynnwys digon o wybodaeth i adnabod yr esgyll siarcod dan sylw; a phennu a yw'n ymwneud â mewnforio neu allforio.

27. Diffinnir "awdurdod priodol" ym mharagraff 9 o'r Atodlen fel a ganlyn:

- Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru;
- yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr; a
- Gweinidogion yr Alban mewn perthynas â'r Alban.

28. Mae paragraff 2 yn darparu bod yn rhaid i berson sy'n gwneud cais am dystysgrif esemptio ddarparu gwybodaeth a thalu unrhyw ffi y gofynnir amdani gan Weinidogion Cymru. Gall Gweinidogion Cymru wrthod cais, a rhaid iddynt hysbysu'r person sy'n gwneud cais am y rheswm dros wrthod.

29. Mae paragraff 3 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru ddirymu neu ddiwygio'r dystysgrif esemptio cyn y mewnforio neu'r allforio, os yw'n ymddangos bod y person a wnaeth y cais wedi darparu gwybodaeth anghywir ynddo. Rhaid i Weinidogion Cymru ddirymu tystysgrif esemptio os nad yw'r mewnforio neu'r allforio wedi digwydd ac nad ydynt bellach yn fodlon bod y mewnforio neu'r allforio at ddibenion cadwraeth.

- 30.** Mae paragraff 4 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru osod cosb sifil, ar ffurf cosb ariannol, o hyd at £3,000 ar geisydd a fydd yn darparu gwybodaeth anghywir neu anghyflawn yn fwriadol neu oherwydd methiant i gymryd gofal rhesymol, neu pan fydd y ceisydd yn gwybod bod y wybodaeth yn anghywir neu'n anghyflawn ar y pryd ac yn methu â hysbysu Gweinidogion Cymru.
- 31.** Mae paragraff 4(4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r gosb ariannol. Mae paragraff 4(5), (6) a (7) yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, neu Weinidogion yr Alban o dan baragraff 4(4) gael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.
- 32.** Mae paragraff 5 yn amlinellu'r broses ar gyfer cosbau ariannol. Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad cosb cychwynnol i'r ceisydd sy'n rhoi cyfle i'r ceisydd osgoi rhwymedigaeth drwy dalu swm a bennir yn yr hysbysiad sy'n llai na swm y gosb arfaethedig neu'n hafal iddo.
- 33.** Mae paragraff 5(3) a (4) yn rhoi cyfle i geisydd wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad cosb cychwynnol. Ar ôl y cyfnod hwn, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad i'r ceisydd yn gosod cosb ariannol (hysbysiad cosb terfynol).
- 34.** Mae paragraff 5(6) yn darparu mai'r gosb a bennir yn yr hysbysiad cosb terfynol yw'r swm a bennir yn yr hysbysiad cosb cychwynnol neu gosb o swm llai.
- 35.** Mae paragraff 5(7) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru dynnu'r hysbysiad cosb cychwynnol neu derfynol yn ôl ar unrhyw adeg.
- 36.** Mae paragraff 6 yn darparu ar gyfer y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad cosb cychwynnol a hysbysiad cosb terfynol. Gall hysbysiad cosb terfynol ddarparu bod llog neu gosbau eraill yn daladwy os na chaiff taliad ei wneud o fewn y cyfnod a bennir gan yr hysbysiad.
- 37.** Mae paragraff 7 yn darparu hawl i geisydd apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru i wrthod cais am dystysgrif esemptio; i ddirymu tystysgrif eithrio; neu i roi hysbysiad cosb terfynol.
- 38.** Mae paragraff 7(2) yn caniatáu i apêl gael ei gwneud ar y sail bod y penderfyniad yn seiliedig ar gamgymeriad ffeithiol; bod y penderfyniad yn anghywir yn ôl y gyfraith; neu fod y penderfyniad yn afresymol.

- 39.** Mae paragraff 7(3) yn darparu y caiff apêl yn erbyn penderfyniad i roi hysbysiad cosb terfynol hefyd fod ar y sail bod swm y gosb a osodir gan yr hysbysiad yn afresymol.
- 40.** Mae paragraff 7(4) yn darparu, yn dilyn apêl yn erbyn hysbysiad o benderfyniad, y caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf gadarnhau penderfyniad Gweinidogion Cymru i ddirymu neu wrthod tystysgrif esemptio; neu ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi tystysgrif esemptio neu ganslo penderfyniad i'w dirymu; neu ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad.
- 41.** Mae paragraff 7(5) yn darparu, yn dilyn apêl yn erbyn penderfyniad, y caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf gadarnhau'r hysbysiad cosb terfynol; dileu'r hysbysiad cosb terfynol; neu amrywio'r hysbysiad cosb terfynol drwy ostwng swm y gosb.
- 42.** Mae paragraff 7(6) yn darparu, yn dilyn apêl yn erbyn penderfyniad i roi hysbysiad cosb terfynol, fod y gofyniad i dalu'r gosb yn cael ei atal dros dro hyd nes y penderfynir yn derfynol ar yr apêl neu hyd nes y tynnir yr apêl yn ôl ac nad oes llog na chosb arall yn daladwy yn ystod y cyfnod hwn.
- 43.** Mae paragraff 8 yn darparu, os nad yw person yn talu'r gosb gyfan neu unrhyw ran o gosb y mae'r person yn agored i'w thalu, fod y gosb yn adenilladwy yng Nghymru a Lloegr fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn y Llys Sirol.
- 44.** Gan fod yr Atodlen yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion datganoledig, sef lles anifeiliaid a chadwraeth, barn y Pwyllgor yw bod angen cydsyniad y Senedd. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (Paragraff 19) yn nodi hyn.
- 45.** Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cytuno (gweler yr Atodiad i'r Nodiadau Esboniadol, ar dudalen 10). Mae Memorandwm Pwerau Dirprwyedig Llywodraeth y DU yn datgan fel a ganlyn (gweler paragraff 11, tudalen 3) mewn perthynas â pharagraff 4 i'r Atodlen:

"Setting the amount of this penalty via a delegated power will ensure this penalty can be adjusted in the future. A delegated power is required to allow for its adjustment in the future, particularly to take account of changes in the value of money or should it be necessary to increase the protection bestowed upon sharks in the future by increasing disincentives to kill them for their fins. The Department is aware that it is unusual to provide a power to vary penalties, but there is precedent from section 44 of the Childcare Payments Act 2014 which includes a similar power in relation to increasing a £3,000 civil penalty connected to the

submission of incorrect information concerning an application made under that Act."

46. At hynny, mae Memorandwm Hawliau Dynol Llywodraeth y DU yn datgan fel a ganlyn (gweler paragraffau 21 i 24) ynghylch y cyfiawnhad hawliau dynol dros osod cosb sifil:

"23. Article 6.1 is clearly engaged by the creation of a civil penalty which requires the applicant to have a fair hearing if they challenge the imposition of such a penalty. The refusal or revocation of an exemption certificate, which arguably has an impact on the property rights attached to shark fins may also engage Article 6.1.

"24. However, we do not consider that there is interference with Article 6.1 rights. The Schedule provides for an administrative appeal against the decision to impose a monetary penalty enabling the applicant to make representations against the imposition or amount of the penalty. A decision of the Secretary of State's to refuse or revoke an exemption certificate or to impose a monetary penalty can be appealed to the First-tier Tribunal (FtT) and the Scottish First-tier Tribunal (in relation to Scottish decisions). The ability to appeal to an independent appeal body such as the FtT is sufficient for compliance with Article 6.1."

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn dros Gymru mewn Bil y DU

47. Mae paragraffau 22 i 25 o Femorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi'r rhesymau dros gredu ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaeth ddatganoledig.

"22. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nodau ac amcanion y Bil, gan gydnabod yr angen am y darpariaethau hyn i wahardd esgyll siarcod a gafwyd drwy arferion anfoesegol "tynnu esgyll siarcod" rhag mynd i mewn i farchnadoedd y DU. Mae cadwraeth siarcod, a chadwraeth forol yn ehangach, yn bolisi allweddol i Lywodraeth Cymru a fy marn i yw bod y Bil hwn yn helpu i gyflawni'r nodau hyn ar lefel fyd-eang. Mae'r Bil, fel y'i drafftiiwyd ar hyn o bryd, yn anfon neges allweddol bod tynnu esgyll siarcod yn annerbyniol ac y byddai Cymru'n hoffi ymbellhau oddi wrtho.

"23. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y budd o ran symud y Bil DU hwn yn ei flaen fel y bydd y darpariaethau'n gymwys ar yr un pryd ledled y DU. Nid oes Bil tebyg gan y Senedd wedi'i gynllunio yn y tymor byr na'r tymor canolig, a phe bai'r Bil yn mynd rhagddo heb Gymru neu ar amserlenni

gwahanol, mae perygl y bydd bwlch rheoleiddiol rhwng y Bil yn dod i rym yng ngweddill y DU a Bil tebyg gan y Senedd yn dod i rym. Gallai hynny olygu bod porthladdoedd Cymru yn cael eu targedu ar gyfer mewnfario, gyda'r broses o ddsbarthu ymlaen i weddill y DU yn anodd ei hatal. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod mai Bil ledled y DU yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i ddarparu dull rheoleiddio cyson ar fewnfario ac allfario esgyll siarcod datgysylltiedig ac arferion tynnu esgyll siarcod yng Nghymru.

"24. Mae DEFRA wedi cynnig Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer defnyddio'r pwerau cychwyn yng nghymal 3, pan fo Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn cytuno i amserlen i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i gychwyn y darpariaethau perthnasol yn y Bil. Yn y cyd-destun hwn, er bod hwn yn faes datganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r Bil wneud darpariaeth i Gymru ac i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r pwerau cychwyn.

"25. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod paragraff 7 o'r Atodlen i'r Bil yn rhoi hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn maes datganoledig y gallai, yn ddamcaniaethol, gael ei glywed gan dribiwnlys datganoledig. Fodd bynnag, nid oes tribiwnlys datganoledig priodol ar hyn o bryd i glywed apeliadau o dan y Bil, a byddai angen deddfwriaeth sylfaenol y DU i wneud darpariaeth ar gyfer tribiwnlys datganoledig o'r fath. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru'n fodlon i'r Bil wneud darpariaeth o'r fath, gan nodi y gallai Bil gan y Senedd yn y dyfodol ddiwygio'r Bil er mwyn dwyn apeliadau o'r fath gerbron tribiwnlys datganoledig yng Nghymru."

Goblygiadau ariannol

48. Mae paragraffau 28 i 33 o Femorandwm Llywodraeth Cymru yn manylu ar oblygiadau ariannol y Bil:

"28. Mae swyddogion yn DEFRA wedi cynnal Asesiad Brysbennu Rheoleiddiol (RTA) yn archwilio'r effeithiau posibl y darpariaethau o fewn y Bil ar gyfer y DU gyfan.

"29. Daeth y data a ddefnyddiwyd yn bennaf gan y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) ac mae'n ymwneud â glaniadau ym mhorthladdoedd y DU gan longau'r DU a llongau tramor. Mae data glaniadau yn bwysig am eu bod yn amlinellu'r farchnad fewnol/allanol bosibl ar gyfer esgyll siarcod. Dim ond ar

lefel y DU y mae'r data hyn ar gael, felly, ni fu'n bosibl mesur effaith yn benodol ar fusnesau Cymru.

"30. Mae'r RTA wedi nodi 125 o borthladdoedd ar draws y DU sydd yn ôl yr adroddiadau wedi trin 'siarcod a morgwn' (a geir yn y tacson elasmobranchii) gydag Aberdaugleddau ac Abertawe yn y deg porthladd uchaf gyda glaniadau 2019 gwerth £59,641 a £20,708 yn y drefn honno. Ers 2018, mae cofnodion yn dangos bod y DU wedi allforio uchafswm o 12 tunnell o esgyll siarcod gwerth £216,000 i Sbaen yn bennaf a gwledydd eraill yn Ewrop.

"31. Yn y mwyafrif o achosion mae'r glaniadau hyn yn ddamweiniol yn hytrach nag yn ddalfeydd wedi'u targedu, ac mae'r darpariaethau o fewn y Bil yn annhebygol o gael effaith ddifrifol ar y busnesau hyn yng Nghymru. At hynny, mae'n debygol i'r anifail cyfan gael ei lanio gan fod gweddill y carcass yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin ar gyfer abwyd mewn pysgodfeydd eraill.

"32. Mae data ar gyfer esgyll siarcod a fewnforiwyd i'r DU heb eu dilysu oherwydd y polisi Esgyll sydd Ynghlwm yn Naturiol (FNA) a oedd, i raddau helaeth, yn gwahardd mewnforio esgyll siarcod ac eithrio lwfans personol o hyd at 20kg.

"33. Mae DEFRA wedi dod i'r casgliad bod y gost a amcangyfrifir i fusnesau'r DU yn £216,000 y flwyddyn (yn seiliedig ar ddata mewnforio/allforio Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi). Nid yw'n bosibl darparu ffigur ar gyfer Cymru oherwydd nad oes digon o ddata."

Safbwynt Llywodraeth Cymru

49. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau yn y Bil Aelod Preifat hwn i atal unrhyw risg o amwysedd cyfreithiol yn ymwneud â mewnforio ac allforio esgyll siarcod yn y DU a masnachu anghyfreithlon o esgyll siarcod a all ffurfio o fewn y DU.

50. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn cydsynio i'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Barn y Pwyllgor

51. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer yr holl gymalau a'r Atodlen i'r Bil.

52. Nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm dros wrthwynebu i'r Senedd gytuno i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm hwn.